# LC1369

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Bwyd (Rheolaeth Frys) (Dirymu) (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau hyn, sy’n gymwys o ran Cymru, yn darparu ar gyfer dirymu offerynnau penodedig a weithredai Benderfyniadau'r Comisiwn a oedd yn gosod amodau ar fewnforio cynhyrchion penodol a allai fod wedi’u halogi gan lefelau rhy uchel o afflatocsinau.

Darfu’r angen i weithredu’r Penderfyniadau Comisiwn cynharach hynny gyda gwneud Penderfyniad cynhwysfawr sy’n gymwys o 1 Hydref 2006.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae’r pwyntiau canlynol wedi’u nodi o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn yr Atodlen i’r Rheoliadau hyn, mae’r cyfeiriad at S.I. 2203/2292 yn anghywir. Yn y teitl i’r offeryn hwnnw mae "(Cymru)" yn ymddangos cyn "(Diwygio)" ac nid fel y dangosir. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae hwn yn gamgymeriad drafftio neu deipio bach sy’n briodol i’w gywiro trwy Femorandwm Cywiriadau.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**17 Hydref 2006**